

Un o'r tasgau anoddaf wrth wneud arholiadau yw bod yn gryno, yn drachywir a bod â'r gallu i egluro rhywbeth yn glir ar yr un pryd. Nid yw'r sgîl o 'amlinellu' rhywbeth yn cael ei werthfawrogi digon. Ceir yr enghraifft orau o amlinellu mewn geiriadur neu wyddoniadur lle y gelwir ar arbenigwyr sy'n fyd-enwog i ddrafftio eglurhad trachywir a chllir o air, term neu gysyniad ond gyda'r nod o'i gadw'n gryno.

Dyma enghraifft. Mae'r term 'dukkha' yn cyfeirio at y ddysgeidiaeth Fwdhaidd am natur y broblem a wynebwr mewn bywyd. Darllenwch y dyfyniad canlynol a ysgrifennwyd ar gyfer geiriadur crefyddau'r byd:

**Dukkha** yw'r cyntaf o'r gwirioneddau nobl. Gellir ei gyfieithu'n well fel 'rhwystredigaeth'. Mae Narada Thera, 'The Buddha and His Teachings', yn trosi dukkha yn llythrennol fel 'yr hyn y mae'n anodd ei ddiodef' (cyfansawdd o 'du' - anodd a 'kha' - diodef). Ni allwn ganfod hanfod i'n bodolaeth bersonol na chanfod un peth nad yw'n newid; fodd bynnag, gan y byddem yn hoffi i bethau aros yr un fath (e.e. hapusrwydd, bywyd) a gan ein bod yn hoffi meddwl amdanom ein hunain fel unigolion gyda hunaniaeth unigryw yna rydym yn diodef pan nad yw hyn yn digwydd. Rydym yn hoffi meddwl ein bod yn iach yn gyson ac felly mae cael salwch yn anodd; mae heneiddio'n broses drist; mae marwolaeth yn rhywbeth anodd dygymod ag ef. Gall hyd yn oed bod yn hapus fod yn drist; er enghraifft, pan fyddwn ar wyliau, er ein bod yn hapus iawn, pan fyddwn yn ystyried y bydd hyn yn dod i ben rydym yn teimlo'n drist yn syth! Caiff dukkha ei gyfieithu'n aml fel 'dioddefaint' neu 'sâl', er nad yw hwn yn gyfieithiad llythrennol boddhaol. Mae Peter Harvey'n cyfeirio ato fel 'rhwystredigaeth' neu 'anfodlonrwydd cyffredinol' ynghylch bywyd: 'mae diodef yn rhan gynhenid o wneuthuriad bywyd'. Yn wir, mae'r holl syniad o dukkha'n dod o brofiad y Bwdha o'r pedair golygfa. Mae'n nodweddiadol o 'fod', h.y. bodolaeth (ynghyd ag anicca ac anatta). Y lle gorau i chwilio am gyfieithiad/dealltwriaeth fwy cywir yw cyfeirio at 'Buddhist Dictionary' Nyanatiloka. Mae'n nodi y gall dukkha fod yn 'boen' neu 'ddioddefaint' corfforol a meddyliol; fodd bynnag, 'nid yw dukkha yn gyfyngedig i brofiad poenus ... ond mae'n cyfeirio at natur anfodhaol ac ansicrwydd cyffredinol pob ffenomenon sydd wedi'i gyflyru ... mae hyn yn cynnwys profiad pleserus hefyd' - mae ansicrwydd cyffredinol yn cyfeirio at y ddau 'nod bodolaeth' arall na ellir ei ymrannu oddi wrthynt os ydym am gynnig disgrifiad cywir. Mae'r Dhammacakkapavattana Sutta yn nodi: 'Mae geni'n dukkha, mae heneiddio'n dukkha, mae salwch yn dukkha, mae marwolaeth yn dukkha; mae tristwch, cwynfan, poen, galar ac anobaith yn dukkha; mae cysylltiad â'r hyn nad yw un yn ei hoffi'n dukkha, gwahanu oddi wrth yr hyn mae un yn ei hoffi yn dukkha, peidio â chael beth mae un yn ei ddymuno'n dukkha; yn gryno, mae'r pum grŵp o amgyffred (sy'n ffurfio unigolyn) yn dukkha.' Mae Nyanatiloka yn dadlau, 'Nid yw'r gwirionedd cyntaf yn gwadu bod bodolaeth bleserus yn bod, fel sy'n cael ei dybio'n anghywir weithiau.' Nid yw'n besimistaidd chwaith, fel y nododd y Bwdha: 'Uwchlaw popeth, dyma rwy'n ei ddysgu, diodefaint a gwardedigaeth rhag diodefaint.' Mae diodefaint yn ganlyniad naturiol o beidio gweld pethau fel anicca ac anatta; o ganlyniad, mae gwrthrychau, syniadau a phrofiadau sy'n cael eu gweld fel rhai parhaol ac sy'n bodoli ynddynt eu hunain yn naturiol yn arwain at ymlyniadau sydd wedyn yn arwain at brofiadau poenus pan fydd y rhain yn anochel yn cael eu torri fel y mae 'cyfreithiau bodolaeth' yn gorchymyn ac nid ydynt yn parhau. (494 gair)

Mae'r crynodeb hwn yn 494 gair o hyd ond, fel 'golygydd', nid wyf yn cael defnyddio mwy na 270 +/- 5 gair ar gyfer fy erthygl fy hun. Rwyf wedi amlygu'r hyn y byddwn yn ei ddefnyddio yn fy nrafft terfynol. Edrychwch ar y gwaith golygu rwyf wedi ei wneud isod:

Dukkha yw'r cyntaf o'r gwirioneddau nobl. Gellir ei gyfieithu'n well fel 'rhwystredigaeth'. Mae Narada Thera, 'The Buddha and His Teachings', yn cyfieithu dukkha yn llythrennol fel 'yr hyn y mae'n anodd ei ddiodeff' (cyfansawdd o 'du' - anodd a 'kha' - diodeff). Ni allwn ganfod hanfod i'n bodolaeth bersonol na chanfod un peth nad yw'n newid; fodd bynnag, gan y byddem yn hoffi i bethau aros yr un fath (e.e. hapusrwydd, bywyd) a gan ein bod yn hoffi meddwl amdanom ein hunain fel unigolion gyda hunaniaeth unigryw yna rydym yn diodeff pan nad yw hyn yn digwydd. Rydym yn hoffi meddwl ein bod yn iach yn gyson ac felly rydym yn cael salwch yn anodd; mae heneiddio'n broses drist; mae marwolaeth yn rhywbeth anodd dygymod ag ef. Gall hyd yn oed bod yn hapus fod yn drist; er enghraifft, pan fyddwn ar wyliau, er ein bod yn hapus iawn, pan fyddwn yn ystyried y bydd hyn yn dod i ben rydym yn teimlo'n drist yn syth! Caiff dukkha ei gyfieithu'n aml fel 'dioddefaint' neu 'sâl', er nad yw hwn yn gyfieithiad llythrennol boddhaol. Mae Peter Harvey'n cyfeirio ato fel 'rhwystredigaeth' neu 'anfodlonrwydd cyffredinol' ynghylch bywyd: "mae diodeff yn rhan gynhenid o wneuthuriad bywyd". Yn wir, mae'r holl syniad o dukkha'n dod o brofiad y Bwdha o'r pedair golygfa. Mae'n nodweddiadol o 'fod', h.y. bodolaeth (ynghyd ag anicca ac anatta). Y lle gorau i chwilio am gyfieithiad/dealltwriaeth fwy cywir yw cyfeirio at 'Buddhist Dictionary' Nyanatiloka. Mae'n nodi y gall dukkha fod yn 'boen' neu 'dioddefaint' corfforol a meddyliol; fodd bynnag, 'nid yw dukkha yn gyfyngedig i brofiad poenus ... ond mae'n cyfeirio at natur anfodhaol ac ansicrwydd cyffredinol pob ffenomenon sydd wedi'i gyflyru ... mae hyn yn cynnwys profiad plaserus hefyd' - mae ansicrwydd cyffredinol yn cyfeirio at y ddau 'nod bodolaeth' arall na ellir ei ymrannu oddi wrthynt os ydym am gynnig disgrifiad cywir. Mae'r Dhammacakkapavattana Sutta yn nodi: 'Mae geni'n dukkha, heneiddio'n dukkha, salwch yn dukkha, marwolaeth yn dukkha; mae tristwch, cwynfan, poen, galar ac anobaith yn dukkha; mae cysylltiad â'r hyn nad yw un yn ei hoffi'n dukkha, gwahanu oddi wrth yr hyn mae un yn ei hoffi yn dukkha, peidio â chael beth mae un yn ei ddymuno'n dukkha; yn gryno, mae'r pum grŵp o amgyffred (sy'n ffurfio unigolyn) yn dukkha.' Mae Nyanatiloka yn dadlau, 'Nid yw'r gwirionedd cyntaf yn gwadu bod bodolaeth bleserus yn bod, fel sy'n cael ei dybio'n anghywir weithiau.' Nid yw'n besimistaidd chwaith, fel y nododd y Bwdha: 'Uwchlaw popeth, dyma rwy'n ei ddysgu, diodeffaint a gwardedigaeth rhag diodeffaint.' Mae diodeffaint yn ganlyniad naturiol o beidio gweld pethau fel anicca ac anatta; o ganlyniad, mae gwrthrychau, syniadau a phrofiadau sy'n cael eu gweld fel rhai parhaol ac sy'n bodoli ynddynt eu hunain yn naturiol yn arwain at ymlyniad sydd wedyn yn arwain at brofiadau poenus pan fydd y rhain yn anochel yn cael eu torri fel y mae 'cyfreithiau bodolaeth' yn gorchymyn ac nid ydynt yn parhau.

Mae'n darllen fel hyn yn awr:

Gellir cyfieithu dukkha, y cyntaf o'r gwirioneddau nobl, yn well fel 'rhwystredigaeth'. Ystyr llythrennol dukkha yw 'yr hyn y mae'n anodd ei ddioddef' (cyfansawdd o 'du' - anodd a 'kha' - dioddef). Ni allwn ganfod un peth nad yw'n newid; fodd bynnag, gan y byddem yn hoffi i bethau aros yr un fath (e.e. hapusrwydd, bywyd) yna rydym yn dioddef pan nad yw hyn yn digwydd. Caiff dukkha ei gyfieithu'n aml fel 'dioddefaint' neu 'sâl', er nad yw hwn yn gyfieithiad llythrennol boddhaol. Mae Peter Harvey'n cyfeirio ato fel 'rhwystredigaeth' neu 'anfodlonrwydd cyffredinol' ynghylch bywyd: 'mae dioddef yn rhan gynhenid o wneuthuriad bywyd'. Yn wir, mae'r holl syniad o dukkha'n dod o brofiad y Bwdha o'r pedair golygfa. Mae'n nodweddiadol o 'fod', h.y. bodolaeth (ynghyd ag anicca ac anatta). Mae 'Buddhist Dictionary' Nyanatiloka yn nodi y gall dukkha fod yn 'boen' neu 'dioddefaint' corfforol a meddyliol; fodd bynnag, 'nid yw dukkha yn gyfyngedig i brofiad poenus ... ond mae'n cyfeirio at natur anfodhaol ac ansicrwydd cyffredinol pob ffenomenon sydd wedi'i gyflyru ... mae hyn yn cynnwys profiad pleruserus hefyd'. Mae'r Dhammacakkapavattana Sutta yn nodi: 'Mae geni'n dukkha, heneiddio'n dukkha, salwch yn dukkha, marwolaeth yn dukkha; mae tristwch, cwynfan, poen, galar ac anobaith yn dukkha; mae cysylltiad â'r hyn nad yw un yn ei hoffi'n dukkha, gwahanu oddi wrth yr hyn mae un yn ei hoffi yn dukkha, peidio â chael beth mae un yn ei ddymuno'n dukkha.' Nid yw'n besimistaidd, fel y nododd y Bwdha: 'Uwchlaw popeth, dyma rwy'n ei ddysgu, dioddefaint a gwaredigaeth rhag dioddefaint.' Mae dioddefaint yn ganlyniad naturiol o beidio gweld pethau fel anicca ac anatta. (267 gair)

Efallai nad ydych yn cytuno gyda fy ngwaith golygu ac efallai eich bod wedi dewis gwneud hyn mewn ffordd wahanol; fodd bynnag, dyma yw gogoniant dewis a chyflwyno deunydd lle rydym i gyd yn egluro pethau mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r sgil hwn yn cyfrannu at ddatblygu'r grefft o egluro cysyniadau eich hun.

Heddiw bydd pob un ohonoch yn gwneud gwaith golygu tebyg gydag anatta. Mewn arholiad, ni allwch nodi popeth bob tro felly mae'n ymarfer da i chi wneud rhywbeth yn fwy cryno ond gan gadw lefel uchel o ddealltwriaeth o hyd. Gobeithio y bydd y sgiliau rydych yn eu hymarfer, yn rhyngweithiol i ddechrau, ond yn eich astudiaethau a'ch adolygu eich hun wedyn, yn eich helpu i dynnu'r rhannau gorau o'ch gwaith darllen eang.